“GADEWCH I NI WNEUD DAIONI I BAWB”

Nodyn i’r siaradwr:
Esbonia sut gallwn ni efelychu daioni Jehofa drwy ofalu am eraill mewn ffyrdd ymarferol. Pwysleisia fod daioni yn un o ffrwythau ysbryd glân Duw

MAE JEHOFA YN EIN DYSGU DRWY EI ESIAMPL EF SUT I WNEUD DAIONI I ERAILL (5 mun.)

Jehofa Dduw yw’r esiampl orau o ddaioni (Mc 10:18)

Mae daioni yn golygu moesau rhagorol; mae’n cael ei fynegi drwy weithredoedd da a buddiol tuag at eraill (*it*-1-E 986)

Mae’r ddaear yn llawn pethau mae Duw wedi eu darparu i wneud ein bywydau yn gyfforddus a hapus.

Drwy ei Air, y Beibl, mae Jehofa yn ein hyfforddi ar sut i fyw yn ddoeth a sut i ymdopi â phroblemau (Esei 48: 17, 18)

Mae’n darparu cymorth a chefnogaeth gariadus (Sal 55:22; Esei 41:10, 13)

Rydyn ni’n plesio Jehofa wrth wneud daioni i eraill **[Darllen Hebreaid 13:16]**

Gall ysbryd Duw ein helpu i efelychu ei ddaioni (Ga 5:22)

GWNEWCH DDAIONI I’CH TEULU (7 mun.)

Dylen ni sicr wneud daioni i’r rhai sydd agosaf inni—ein teuluoedd

Rydyn ni’n byw mewn amser lle mae cariad naturiol tuag at y teulu yn dod yn llai cyffredin (2Ti 3:3)

Dylai berthynas â’r teulu gael ei nodweddu gan deimladau o ofal tyner (Eff 5:33; 6:4)

Mae rhieni yn gyfrifol am ddarparu yn faterol ar gyfer eu plant, hynny yw, y rhai sydd dal yn ddibynnol arnyn nhw; ac yn eu tro mae’n rhaid i blant aeddfed ddarparu ar gyfer rhieni a theidiau a neiniau oedrannus (Mc 7:10-13; 1Ti 5:4, 8)

Gall tywallt gormod o anrhegion materol ar blant fod yn niweidiol, ac mae’n dangos diffyg daioni diffuant (*g*-E 1/13 11)

Rhaid i rieni ddysgu eu plant gyda chariad (De 6:6, 7; *w15*-E 11/15 4-5 ¶3-6; *w14*-E 4/15 18-19 ¶4-7)

Gallwn ddangos daioni tuag at aelodau o’n teulu sydd ddim yn credu drwy rannu gwirioneddau’r Beibl gyda nhw (*w14*-E 3/15 3-6)

Cawn y canlyniadau gorau drwy ddangos tact a pharch (1Pe 3:1, 2, 15)

GWNEWCH DDAIONI I’N TEULU O GREDINWYR (6 mun.)

Dylen ni wneud daioni arbennig i’n cyd-gredinwyr **[Darllen Galatiaid 6:10]**

Dywedodd Iesu y byddai ei wir ddilynwyr yn cael eu hadnabod drwy’r cariad maen nhw’n ei ddangos tuag at ei gilydd (In 13:34, 35)

Rydyn ni’n trin ein cyd-gredinwyr gyda charedigrwydd gan faddau iddyn nhw pan maen nhw’n pechu yn ein herbyn (Eff 4:31, 32)

Dylen ni wneud daioni hyd yn oed i’r rhai sydd o gefndir gwahanol i ni (2Co 6:11-13; *w09*-E 11/15 20-22 ¶5-10)

Pan fo angen pethau materol ar ein cyd-gredinwyr, rydyn ni’n eu helpu (Iag 2:15, 16; *kr*-E 209-210)

GWNEWCH DDAIONI I’R RHAI DYDYCH CHI DDIM YN EU HADNABOD (8 mun.)

Mae’r rhan fwyaf o bobl heddiw yn gofalu am neb ond y nhw eu hunain, neu, ar y gorau, am eu teulu a’u ffrindiau (Mth 5:46, 47)

Mae rhai’n peidio â dangos daioni i eraill, oherwydd maen nhw’n gadael i wahaniaethau mewn hil, cenedl, llwyth neu statws cymdeithasol eu stopio

Cywirodd Iesu y fath syniadau anghywir (Lc 10:29-37)

Rydyn ni’n ufuddhau i orchymyn Iesu i drin pawb fel y bydden ninnau’n hoffi cael ein trin **[Darllen Mathew 7:12]**

[Rho enghraifft briodol o sut allwn roi hyn ar waith yn lleol]

Nid yw trin eraill yn dda yn dibynnu ar y ffordd y maen nhw’n ein trin ni (Mth 5:44, 45; Rhu 13:8-10)

GWNEWCH DDAIONI I ERAILL DRWY BREGETHU AM Y DEYRNAS (4 mun.)

Y brif ffordd rydyn ni’n gwneud daioni i eraill ydy drwy eu helpu i ddod i adnabod Jehofa a gwneud ei ewyllys

Mae rhai cyfundrefnau crefyddol yn cymryd rhan mewn gweithgareddau elusengar ond yn diystyru gorchymyn Iesu i gyhoeddi Teyrnas Dduw (Mth 7:21-23; 24:14; *cf*-E 185-187 ¶10-13)

Efallai bod y fath weithredoedd yn ddiffuant, ond nid ydyn nhw’n diwallu anghenion ysbrydol nac yn helpu pobl i gael bywyd tragwyddol

Gosodwch nod i chi’ch hunain i siarad am Jehofa a’i Deyrnas ar bob cyfle addas a gewch chi

Hyd yn oed os mai newydd ddechrau dysgu’r gwirionedd o’r Beibl ydych chi, gallwch chi rannu beth rydych wedi ei ddysgu gydag eraill

Byddwch yn ddiduedd drwy siarad yn ddi-ofn â ‘phawb’ (1Co 9:20-23)

Bydd Jehofa Dduw yn sicr yn eich bendithio a’ch gwobrwyo am y daioni rydych chi’n ei ddangos i eraill (Dia 11:25)

[Glyna’n agos wrth y deunydd yn yr amlinelliad, a chadwa at yr amser a nodwyd ar gyfer pob rhan. Does dim angen darllen na thrafod pob testun y cyfeirir ato. Gweler y llyfr *Ministry School*, tudalennau 52-55, 166-169]

© 2017 Watch Tower Bible and Tract Society of Pennsylvania